



Dŵr Cymru
Welsh Water

COD YMARFER AR GYFER GOSOD PIBELLAU

EGLURO'R
RHEOLIADAU

CYNNWYS

Cyflwyniad	3
------------	---

CYN I'R GWAITH DDECHRAU

Tirfesur a thyllau prawf	4
Ymgynghori a hysbysu am y gwaith	4
Amseriad y gwaith	5
Iawndal	5
Asiantau neu briswyr tir	5
Cofnod o gyflwr y tir	6
Cysylltiadau	6
Lleoliad pibellau a chyfarpar	6

YN YSTOD Y GWAITH

Goruchwyllo	7
Mynediad i berchenogion a deiliaid	7
Mynediad i ni ein hunain	7
Diogelwch eich eiddo a'r strïbed gwaith	7
Uwchbridd	8
Coed a gwrychoedd	8
Draenio tir	8
Cyrsiau dŵr	8
Cyflenwadau dŵr a gwasanaethau eraill	9
Ardaloedd dan effaith afiechyd	9
Hawliau pysgota a hela	9
Cyfleusterau ar gyfer gweithwyr	9
Trefniadau preifat	9
Ffrwydron	9
Amddiffyn cathodig	9
Cynnal dros dro	10
Darganfod ffosiliau a gwrthrychau	10

AR ÔL Y GWAITH

Adfer	10
Gwybodaeth	11
Iawndal	11
Cwynion	11
Corff gwarchod annibynnol y cwsmeriaid	12
Y Rheoleiddiwr	12

Y llyfryn hwn yw ein Cod Ymarfer, a baratowyd o dan Adran 182 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (y Ddeddf). Mae'n nodi arfer da o ran ein pwerau a'n dyletswyddau pan fyddwn yn gosod prif bibellau, carthffosydd, a chyfarpar neu'n gwneud gwaith arnynt ar dir preifat, neu pan fyddwn yn gwneud gwaith i atal halogi dŵr yn ein gweithfeydd Trin Dŵr. Mae hefyd yn egluro beth sydd gennych chi (y tîrfeddiannwr, a/neu'r deiliad) yr hawl i'w ddisgwyl. Mae'r Ddeddf yn caniatáu ac, mewn rhai achosion, yn ei gwneud yn ofynnol i ni wneud y gwaith hwn. Mae hefyd yn gosod rhai rheolau i ni eu dilyn pan fyddwn yn gosod, addasu neu'n cynnal a chadw pibellau a chyfarpar cysylltiedig.

1. Nid yw'n ofynnol i'r Cod fod yn gymwys ar gyfer gwaith a wneir mewn perthynas â thirfesur a thyllau prawf; ond byddwn yn cadw at ei ddarpariaethau lle y gallwn.

2. Cyn i ni osod pibell, bydd angen i ni gynllunio llwybr. Byddwn yn ystyried sawl agwedd, gan gynnwys:

- Uniongyrchedd llwybrau posibl
- Ystyriaethau peirionyddol
- Y gost (o osod a chynnal a chadw'r bibell)
- Faint o iawndal y gallai fod yn rhaid i ni ei dalu
- Pa mor ddymunol fyddai cyflawni llif disgrychiant
- Osgoi safleoedd o bwysigrwydd amgylcheddol
- Systemau draenio tir a all fod yn bresennol ar y tir
- Tarfu o ganlyniad i'n gwaith (ar draffig, busnesau ac unigolion)

3. O ganlyniad mae'n bosibl y bydd yn rhaid i ni osod pibellau mewn tir o dan berchnogaeth neu ddeiliadaeth breifat. Os felly, byddwn yn ymgynghori â chi a, thrwy ddefnyddio arferion gwaith da, yn ceisio lleihau'r difrod. Byddwn yn gwneud gwaith adfer ar ôl ein gwaith er mwyn adfer eich tir yn ôl i'w gyflwr gwreiddiol. Lle nad yw hyn yn ymorferol, bydd iawndal yn daladwy am unrhyw golled neu ddifrod a achoswyd gan y gwaith.

4. Byddwn yn cydymffurfio â'r Cod lle bynnag y bo'n bosibl ac yn rhesymol ymarferol gwneud hynny. Os na allwn wneud hynny, byddwn bob amser yn esbonio pam. Byddwn hefyd yn cydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall. Nid yw'r Cod hwn yn effeithio ar unrhyw hawliau na phwerau a allai fod gennych chi neu gennym ni.

5. Mae'r Cod hwn mewn tair adran sy'n disgrifio'r hyn sy'n digwydd:

- Cyn i'r gwaith ddechrau
- Yn ystod y gwaith
- Ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau

CYN I'R GWAITH DDECHRAU

TIRFESUR A THYLLAU PRAWF

6. Unwaith y byddwn yn ymwybodol o'r gofyniad am bibell newydd mae'n bosibl y bydd angen i ni fesur llwybrau posibl. Bydd hyn er mwyn darganfod y llwybr gorau a pha ddull i'w ddefnyddio er mwyn gosod y bibell. Os bydd angen i ni agor tyllau prawf neu dyllu, er mwyn i ni allu darganfod natur y priddoedd a'r ddaear o dan wyneb eich tir, byddwn yn rhoi gwybod i chi am hyn. Oni bai ei fod yn achos brys, byddwn yn rhoi o leiaf saith diwrnod o rybudd i chi o'n bwriad i gael mynediad. Byddwn yn ceisio amharu cyn lleied â phosibl ar eich tir. Os na allwn lenwi'r twll yn syth, byddwn yn ei ddiogelu a/neu'n gosod ffens o'i amgylch. Gellir hawlio iawndal ar gyfer unrhyw dir a gollir dros dro.

YMGYNGHORI A HYSBYSU AM Y GWAITH

7. Mae'n ofynnol i ni roi hysbysiad ffurfiol i chi o'n bwriad i gyflawni gwaith ar eich tir. Byddwn yn cyflwyno hysbysiad i berchennog a deiliad unrhyw dir. Bydd yr hysbysiad, sy'n gorfod bod yn ysgrifenedig, yn cynnwys cynllun. Mae'r cynllun er mwyn cynorthwyo, a bydd ond yn dangos yn fras lle caiff y cyfarpar ei adeiladu. Bydd y dogfennau hyn yn rhoi gwybodaeth i chi ynglŷn â lle y bwriadwn osod y bibell, graddfa'r ardal waith a phryd y byddwn yn bwriadu gwneud y gwaith. Dylech ffeilio'r hysbysiad gyda gweithredoedd eich eiddo fel y bydd unrhyw brynwyr yn y dyfodol yn ymwybodol o'r bibell a'r cyfarpar.

8. Os bydd y gwaith yn cynnwys gosod pibell newydd byddwn bob amser yn ceisio cysylltu â chi cyn cyflwyno hysbysiad ffurfiol. Mae'n ofynnol i ni roi tri mis o rybudd o'n bwriad i gael mynediad oni fydd yn ofynnol i ni osod y bibell o dan archeb, pan fyddwn yn rhoi nail ai 14 diwrnod neu 28 diwrnod o rybudd.

9. Os bydd y gwaith yn cynnwys addasiadau i bibell bresennol yna, oni fydd yn achos brys, byddwn yn anelu at roi 42 diwrnod o rybudd, ond efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl a gallai fod angen i ni gyflwyno Hysbysiad gyda chyfnod byrrach. Os bydd angen i ni gael mynediad er mwyn trwsio, cynnal, addasu neu newid pibell bresennol ar frys, nid oes angen i ni roi rhybudd. Mewn amgylchiadau eraill, e.e. os byddwn am archwilio, gwneud gwaith cynnal a chadw arferol (gan gynnwys glanhau), trwsio neu addasu pibell, byddwn yn rhoi rhybudd rhesymol i chi, a fydd yn saith diwrnod fel arfer.

10. Byddwn bob amser yn gwneud ymdrech resymol i ymgynghori â chi cyn cyflwyno'r hysbysiad, ond os nad ydym wedi llwyddo i ymgynghori â chi cyn gwneud hynny, am ba reswm bynnag, byddwn yn ymgynghori â chi ynglŷn â'r hyn y bwriadwn ei wneud yn ystod y cyfnod rhybudd. Yn ystod yr ymgynghoriad hwnnw, byddwn yn gofyn i chi am wybodaeth am y canlynol:

- Perchnogaeth (a deiliadaeth os yw'n wahanol) y tir. Byddai o gymorth petaech yn dweud wrthym os bu newid mewn deiliadaeth neu berchnogaeth
- Unrhyw gynigion sydd gennych ar gyfer datblygu'r tir – fel cynigion i adeiladu unrhyw strwythurau parhaol neu ganiatâd cynllunio sy'n bodoli
- Pibellau, ceblau, cyfarpar neu strwythurau hysbys o dan y ddaear
- Unrhyw beth y credwch a allai effeithio ar amseriad ein gwaith
- Lleoliad ffynhonnau, ffrydiau, carthbyllau neu danciau septig neu ddraeniau tir ac yn arbennig unrhyw system draenio tir dwfn (gweler paragraff 31)

- Unrhyw ddeunyddiau, hylifau neu lystyfiant niweidiol yn yr ardal lle y byddwn yn gweithio, neu unrhyw dir halogedig, neu os bu unrhyw glefyddau planhigion neu anifeiliaid hysbysadwy ar y tir
- Unrhyw ardaloedd ag anghenion arbennig e.e.Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau), fflora a ffawna gwarchodedig, ystyriaethau archeolegol, hawliau tramwy cyhoeddus, coed sy'n ddarostyngedig i orchmynion cadw, neu ardaloedd cadwraeth
- Cnydio a stocio arfaethedig
- Unrhyw ffactor arall y credwch sy'n berthnasol/a fydd yn effeithio ar ein gwaith ac y gallai fod yn rhaid i ni roi iawndal i chi amdano

11. Byddwn yn ystyried yr holl faterion a nodir uchod, yn ogystal ag ystyried unrhyw awgrymiadau sydd gennych chi (a/neu dirfeddianwyr cyfagos yr effeithir arnynt gan y cynllun) ynglŷn â llwybr y bibell, amseriad y gwaith, ac adfer y tir a draeniau tir, a byddwn yn eu trafod gyda chi. Erbyn i ni wneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â'r llwybr, byddwn wedi ystyried anghenion gweithredol a pheirianyddol ynghyd â chostau hirdymor a thymor byr y gwaith, yn ogystal ag unrhyw sylwadau a wnaethoch chi neu eich asiant/prisiwr tir. Os na allwn fodloni unrhyw awgrymiadau neu wrthwynebiadau gennych ar y pryd, byddwn yn egluro'r penderfyniad terfynol i chi yn ysgrifenedig os gofynnwch i ni wneud hynny.

12. Bydd y cyfnod o rybudd yn caniatáu amser i fynd i'r afael ag unrhyw faterion cyn i ni ddechrau ar y gwaith. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, gobeithiwn y byddwn wedi cytuno ar faterion rhyngom. Fodd bynnag, os na fyddwch yn caniatáu i ni gael mynediad i'ch tir yn unol â'r hysbysiad a roddwyd i chi, gallwn wneud cais i'r Llys Ynadon am warant i wneud hynny.

13. Unwaith y byddwn yn dechrau ar y gwaith byddwn yn cadw mor agos â phosibl at y llwybr a hysbyswyd. Os byddwn yn gweld na allwn wneud hynny, byddwn yn ymgynghori â chi. Os byddwn yn gweld bod yn rhaid i ni wneud newidiadau sylweddol, ac na allwch gytuno arnynt gyda ni, byddwn yn cyflwyno hysbysiad o'r newydd.

14. Am ba reswm bynnag, os na fydd y gwaith yn dechrau ar y dyddiad arfaethedig neu'n fuan ar ôl hynny, byddwn yn eich hysbysu o'r amser newydd. Unwaith y caiff y dyddiad dechrau arfaethedig ei bennu, dylem fod yn gallu rhoi syniad rhesymol i chi o ba mor hir y bydd y gwaith yn ei gymryd, ac hefyd pa mor hir y byddwn yn rhagweld y bydd unrhyw waith adfer yn ei gymryd. Unwaith y caiff hysbysiad ei gyflwyno ni ddylech wneud unrhyw beth ar y tir dan sylw a allai ein rhwystro neu ein hatal rhag arfer ein hawliau statudol ond dylech barhau â'ch gweithrediadau amaethyddol arferol hyd at yr amser mynediad gwirioneddol. Os oes unrhyw amwysedd, cysylltwch â ni naill ai ar-lein yn **dwrcymru.com**, neu drwy ffonio **01639 816 925**.

AMSERIAD Y GWAITH

15. O fewn cyfyngiadau peirianyddol, gweithredol a chyfyngiadau eraill, byddwn yn gwneud y gwaith ar yr adeg a fydd yn achosi cyn lleied o ddifrod i'r tir â phosibl.

IAWNDAL

16. Os byddwn yn achosi gostyngiad parhaol yng ngwerth eich tir o ganlyniad i bresenoldeb ein pibellau, neu os byddwch yn profi unrhyw golledion neu aflonyddu dros dro a achosir gan y gwaith, mae'n bosibl y byddwch yn gallu hawlio iawndal gennym (gweler paragraff 52).

ASIANTAU NEU BRISWYR TIR

17. Lle bydd y gwaith yn cynnwys gosod, trwsio neu newid pibellau, dylech ddefnyddio asiant neu brisiwr tir cymeradwy. Os byddwch yn gwneud hynny, byddwn yn talu cost resymol ffi'r asiant/prisiwr tir ar ôl i'r hawliad gael ei setlo. Bydd yr uchafswm a delir gennym yn seiliedig ar ein graddfeydd safonol ar gyfer ffioedd proffesiynol. Os ydych am gael rhagor o wybodaeth am hyn, dylech ofyn i'ch asiant/prisiwr tir. Nid ydym yn talu ffioedd cyfreithiol oni fyddwn yn gofyn i chi am ddogfen hawddfrait ffurfiol a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i chi benodi cyfreithiwr. Os ydych am gael rhagor o wybodaeth am hyn, dylech ofyn i'ch asiant/prisiwr tir.

COFNOD O GYFLWRY TIR

18. Byddwn yn gwneud cofnod llawn o gyflwr yr ardal waith, gan gynnwys unrhyw adeiladau cyfagos, unrhyw fynediadau ac unrhyw leoedd coedig mewn perthynas â'r cynllun arfaethedig. Gall hyn gynnwys unrhyw rai neu bob un o'r canlynol: nodiadau ysgrifenedig, ffotograffau, neu recordiad fideo gyda sylwebaeth lafar. Caiff copi ei anfon at eich asiant/prisiwr tir cyn i'r cynllun ddechrau (neu os nad oes gennych asiant/prisiwr tir, atoch chi). Os byddwn wedi methu unrhyw beth yn ystod y cam hwnnw, dywedwch wrthym. Diben y cofnod yw eich helpu chi a ni i gadarnhau ein bod wedi adfer y tir i gyflwr mor agos â phosibl at hyn oedd yn bodoli cyn i ni ddechrau'r gwaith (oni fyddwch wedi gofyn i ni ystyried cynigion amgen) a bod yr adeiladau yn parhau yn yr un cyflwr.

CYSYLLTIADAU

19. Cyn i'r gwaith ddechrau byddwn yn rhoi enw, cyfeiriad gweithle a rhif ffôn yr unigolyn sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith i chi. Fel arfer, bydd ef/hi ar gael yn ystod oriau gwaith arferol. Byddwn hefyd yn rhoi rhif ffôn ar gyfer achosion brys i'w ddefnyddio y tu allan i oriau gwaith arferol, neu os na fydd y cyswllt arferol ar gael.

LLEOLIAD PIBELLAU A CHYFARPAR

20. Fel arfer, caiff ein pibellau eu gosod o dan y ddaear. Mae'n well gennym eu gosod gydag o leiaf 900mm o orchudd dros ran uchaf y bibell gan fod hyn yn ei gwarchod rhag rhew ac hefyd rhag ymyrraeth gan unrhyw weithrediadau amaethyddol. Weithiau bydd problemau peirianyddol neu rwystrau fel brigiadau creigiog, yn rhwystro hyn. Os bydd hynny'n digwydd byddwn yn rhoi gwybod i chi beth yw'r lleoliad a'r dyfnder terfynol. Gallwn, oni chytunir yn wahanol gyda chi, osod arwyddbyst parhaol wrth ffiniau caeau i ddangos lleoliad pibellau a siambrau. Mae achosion achlysurol lle na ellir osgoi lleoliadau eraill. Os oes gennych system draenio tir ddofn dylech roi gwybod i ni am hyn cyn i ni ddechrau ar y gwaith.

21. Yn gyffredinol, byddwn yn rhoi ein pibellau a'r cyfarpar cysylltiedig o dan y ddaear. Mae cyfarpar cysylltiedig yn cynnwys amrywiaeth eang o osodiadau sydd eu hangen er mwyn defnyddio neu weithredu'r bibell, fel tanciau, falfiau, tyllau archwilio a phympiau, ac maent oll yn rhan o'r bibell. Fodd bynnag, os bydd angen i ni osod twll archwilio neu gyfarpar cysylltiedig arall a fydd yn uwch na lefel y ddaear neu ar lefel y ddaear, byddwn yn ceisio ei leoli mewn lle a fydd yn achosi cyn lleied o ymyrraeth â phosibl ar weithrediadau amaethyddol yn y dyfodol. Am resymau peirianyddol, mae angen i ni osod tyllau archwilio lle bydd carthffos yn newid cyfeiriad neu ddyfnder, gyda bylchau rheolaidd rhyngddynt. Ar brif bibellau dŵr mae'n bosibl y bydd angen i ni osod falfiau aer ar bwyntiau uchel, a falfiau all-lif ar bwyntiau isel. Os bydd angen i ni osod darn o gyfarpar ar neu uwchlaw lefel y ddaear byddwn bob amser yn trafod hyn gyda chi yn gyntaf. Os bydd angen cael twll archwilio yn eich gardd, byddwn bob amser yn trafod ei leoliad gyda chi, ac os yn bosibl byddwn yn gofyn i chi ddewis ei leoliad terfynol yn eich gardd.

YN YSTOD Y GWAITH

GORUCHWYLIO

22. Byddwn yn gwneud yn siŵr y bydd unrhyw un sy'n gweithio i ni ar eich tir yn cael ei oruchwylio'n briodol ac y dywedir wrtho/wrthi i beidio â chrwydro y tu hwnt i'r ardal waith. Os byddwch wedi dweud wrth y cyswllt a enwir am unrhyw beth sydd angen sylw arbennig, bydd ef/hi yn sicrhau y caiff ei ddwyn i sylw ein gweithwyr a fydd angen ei ystyried o bosibl.

23. Ac eithrio mewn achos brys, os byddwn yn gweithio'n agos at eiddo preswyl, a bod angen i ni weithio ar wyliau'r banc, ar benwythnos, neu rhwng 7.30pm a 7.30am, byddwn yn rhoi gwybod i chi ymlaen llaw.

MYNEDIAD I BERCHENOGION A DEILIAID

24. Rydym yn sylweddoli pwysigrwydd sicrhau mynediad parhaus at eich eiddo. O fewn rheswm, byddwn yn caniatáu i chi gael mynediad gyda stoc neu gerbyd ar draws yr ardal waith. Os bydd lleoliad yr ardal waith yn golygu ei fod yn atal mynediad at ran o'ch eiddo/tir byddwn yn trafod hyn gyda chi cyn i ni ddechrau'r gwaith. Os bydd yn briodol byddwn yn darparu croesfannau troed, clwydi, grisiau neu gamfeydd dros dro ac yn trafod eu lleoliad gyda chi.

25. Byddwn yn ceisio cadw dulliau presennol o gael mynediad at ardaloedd a ynsir gan y gwaith ar agor oni bai y byddai'n fwy addas darparu dull amgen. Os byddwch chi a ninnau'n defnyddio mynediad cyffredin, byddwn yn ceisio ei gadw mor glir â phosibl rhag mwd a llwch sy'n deillio o'n gwaith. Byddwn yn sicrhau bod cyn lleied o ymyrraeth â phosibl â dulliau presennol o fynediad ar gyfer cerbydau brys.

MYNEDIAD I NI EIN HUNAIN

26. Fel arfer, byddwn yn cael mynediad at ein gwaith dros yr ardal waith. Fodd bynnag, os bydd angen mynediad drwy lwybr arall, byddwn (oni fydd yn achos brys) yn ymgynghori â chi yn gyntaf ac yn cynnwys unrhyw fynediad ychwanegol yn yr hysbysiad.

27. Ni fyddwn yn gosod unrhyw glwydi, grisiau na chamfeydd parhaol ar ffyn rhwng eich tir a phriffordd neu lwybr cyhoeddus heb eich caniatâd, na rhwng eich tir chi â thir cyfagos heb ganiatâd y ddau dirfeddiannwr. Byddwn yn cynnal hawliau mynediad i'r cyhoedd. Os bydd angen unrhyw byrth newydd i'r briffordd oherwydd ein gwaith, byddwn yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio.

DIOGELWCH EICH EIDDO A'R STRIBED GWAITH

28. Cyn i ni ddechrau'r gwaith byddwn yn siarad â chi ynglŷn â ph'un a oes angen gosod ffens o amgylch yr ardal waith. Os bydd yr ardal waith wrth ymyl tir lle bydd da byw yn parhau arno, byddwn yn codi ffens gwrth-stoc addas. O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn sicrhau y caiff y ffens gwrth-stoc ei chynnal a chadw drwy gydol cyfnod y gwaith (a'r gwaith adfer) a byddwn yn codi pyst cynnal lle bydd ein ffens ni yn cwrdd â ffens bresennol, ac yn sicrhau bod y ddwy ffens wedi'u diogelu a'u tynhau i'r pyst. Os bydd da byw yn crwydro drwy'r ardal waith o ganlyniad i weithrediadau neu hepgoriadau ar ein rhan ni, byddwn yn ystyried hawliadau am golledion neu ddirod. Am resymau diogelwch, ni fydd gennych fynediad at yr ardal waith. Fodd bynnag, byddwn yn sicrhau, os bydd angen, y bydd gennych fynediad ar draws yr ardal waith ac na fydd lefel diogelwch presennol eich eiddo'n gostwng yn ystod y gwaith a'r gwaith adfer.

UWCHBRIDD

29. Byddwn yn ceisio cadw cyfansoddiad y pridd. Pan gaiff uwchbridd ei godi allan o'r ddaear, byddwn yn ei storio ar wahân i ddeunyddiau eraill a gloddiwyd. Ni fyddwn yn ei gywasgu ag unrhyw beirionau. Pan fydd y gwaith wedi ei orffen, ymgwymerir â gwaith paratoi isbridd digonol cyn ailosod yr uwchbridd. Caiff y deunydd a gloddiwyd ei roi'n ôl, i'r graddau sy'n bosibl, yn y cyflwr yr oedd ynddo cyn dechrau'r gwaith. Caiff yr uwchbridd ei roi yn ôl i'r un dyfnder ag yr oedd yn wreiddiol ac ni fydd unrhyw gerrig mawr a gloddiwyd yn ystod y gwaith yn cael eu gadael ar y wyneb. Ac, os na allwn roi'r un uwchbridd yn ôl a gafodd ei dynnu o'ch tir am ba reswm bynnag, caiff ei gyfnwio, oni chytunir yn wahanol â chi, am bridd o natur, cyfansoddiad ac ansawdd tebyg.

COED A GWRYCHOEDD

30. Lle bynnag y bo'n bosibl byddwn yn ceisio osgoi torri neu docio coed aeddfed, ond os na ellir osgoi hyn byddwn yn ymgynghori â chi yn gyntaf. Mae'r gwaith o waredu rhannau o rai ffiniau gwrychoedd a phlannu rhai newydd yn ddarostyngedig i Reoliadau Gwrychoedd 1997 a rhaid cael caniatâd gan yr awdurdod cynllunio lleol. Os bydd coed yn ddarostyngedig i orchymyn cadw neu mewn ardal godwraeth, byddwn hefyd yn cysylltu â'r awdurdod priodol ac yn cydymffurfio â'i amodau. Os byddwn wedi torri unrhyw goed aeddfed, byddant yn dal i fod yn eiddo i chi. Os dymunwch byddwn yn eu gwaredu yn unol ag unrhyw geisiadau rhesymol.

DRAENIO TIR

31. Os oes gennych unrhyw gofnodion o ddraeniau tir presennol, dylent fod ar gael i ni cyn gynted â phosibl. Yna byddwn yn trafod y gwaith adfer i unrhyw systemau draenio tir y mae'r gwaith yn effeithio arnynt, gan y gall fod angen cyflawni gwaith cychwynnol mewn rhai amgylchiadau cyn i'r gweithrediadau gosod pibellau ddechrau. Os cawn ein hysbysu o system draenio tir eang, yna cyn y gwaith gallwn gyflogi ymgynghorydd draenio tir i lunio cynllun unioni.

32. Os byddwn yn darganfod system draenio tir yn ystod y gwaith nad oeddech wedi rhoi gwybod i ni amdani, byddwn yn dweud wrthyhch. Os byddwn yn aflonyddu arni, neu unrhyw system draenio tir rydych wedi dweud wrthym amdani, byddwn yn gwneud ein gorau i'w hadfer neu ei hailosod i'r un safon ag yr oedd cyn i'r gwaith ddechrau. Byddwn, lle y bo'n ymarferol, yn gosod ein pibell o dan y system draenio tir. Byddwn yn dweud wrthyhch pryd y byddwn yn gwneud gwaith unioni ac yn rhoi cyfle i chi archwilio'r safle.

33. Byddwn yn gwneud cofnod (a fydd yn cynnwys ffotograffau o bosibl) o unrhyw ddraeniau tir yr aflonyddwyd arnynt a'r gwaith ailosod/aiglgylltu a wnaed. Os dymunwch, byddwn yn rhoi copi i chi. Os byddwn yn adeiladu unrhyw ddraeniau mewn lleoliadau lle nad oedd rhai'n bodoli eisoes, byddwn yn trafod hyn gyda chi, ac yn rhoi'r cyfle i chi archwilio'r safle ac yn rhoi cofnod o'r gwaith i chi ar ôl ei gwblhau. Efallai yr hoffech ystyried ffeilio copi gyda'r gweithredoedd.

CYRSIAU DŴR

34. Lle bo pibell yn croesi dan gwrs dŵr, caiff ei osod yn unol â gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Awdurdod Lleol lle bo'n berthnasol. Yn niffyg gofynion o'r fath, bydd pen y bibell o leiaf 300mm islaw gwaelod gwreiddiol y cwrs dŵr wedi'i glirio.

35. Os bydd ein pibellau'n effeithio ar unrhyw gwrs dŵr byddwn yn trafod ein cynigion â chi, a byddwn yn sicrhau ei fod yn parhau mewn cyflwr sydd yr un mor effeithiol ar gyfer draenio tir ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau ag yr oedd cyn dechrau'r gwaith.

CYFLENWADAU DŴR A GWASANAETHAU ERAILL

36. Os byddwn yn amharu ar gyflenwadau dŵr neu unrhyw wasanaethau eraill yn ein hardal waith neu'n eu difrodi'n ddamweiniol, byddwn yn trwsio'r difrod, neu'n darparu gwasanaeth amgen addas cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol. Byddwn hefyd yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw ein gwaith yn llygru

unrhyw gyflenwadau dŵr na chysiau dŵr. Os bydd unrhyw bosibilrwydd o ymyrraeth â chyflenwadau dŵr preifat, fel ffynhonnau neu ffrydiau, byddwn yn trefnu i samplau gael eu dadansoddi, a byddwn ni'n talu am hyn. Bydd hyn yn ein helpu i fesur ansawdd, ac i gofnodi lefelau ffynhonnau a llif ffrydiau a chytuno arnynt cyn y gwaith ac ar ei ôl, cyn belled â'ch bod wedi tynnu ein sylw at yr angen hwn mewn da bryd. Byddwn yn gweithio o gwmpas cafnau, safbïellau neu gyflenwadau caeau a leolir yn yr ardal waith lle y bo'n briodol, neu cânt eu symud i leoliad newydd, lleoliad dros dro neu leoliad parhaol y cytunwyd arno.

ARDALOEDD DAN EFFAITH AFIECHYD

37. Os byddwch chi'n rhoi gwybod i ni bod yr ardal lle mae angen i ni weithio wedi ei heintio ag afiechyd hysbysadwy o dan Ddeddfau Iechyd Anifeiliaid 1981 a 2002 (e.e. clwy'r traed a'r genau) byddwn ni'n dilyn gofynion Adran yr Amylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) a Llywodraeth Cymru. Os oes angen i ni gael mynediad brys, byddwn ni'n cymryd pob rhagofal angenrheidiol. Os yw DEFRA wedi cyflwyno gofynion i osgoi lledu plâu a chlefydau yn y pridd, byddwn, wrth gwrs, yn cydymffurfio â nhw.

HAWLIAU PYSGOTA A HELA

38. Ni chaniateir i'n staff na'n hasiantau/priswyr tir gario drylliau ar yr ardal waith. Ni fyddwn yn dod ag anifeiliaid ar y safle (ac eithrio cŵn gwarchod o bosibl, yn unol â Deddf Cŵn Gwarchod 1975).

39. Os bydd hawl i bysgota neu hela sy'n gyfagos â'r ardal waith, byddwn yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod ein gwaith yn effeithio cyn lleied â phosibl ar y mwynhad ohonynt.

CYFLEUSTERAU AR GYFER GWEITHWYR

40. Os byddwn yn dod â chytiau neu garafannau i'r ardal waith ar eich tir, ni chânt eu defnyddio ar gyfer llety dros nos heb eich caniatâd heblaw lle bo risg i ddiogelwch. Byddwn yn darparu cyfleusterau ystafell ymolchi er hwylustod gweithwyr.

TREFNIADAU PREIFAT

41. Os byddwch yn gwneud trefniadau'n uniongyrchol gyda'n contractwyr, dylech nodi na fyddwn yn gyfrifol am unrhyw ganlyniadau nac yn ymyrryd mewn unrhyw gytundeb o'r fath rhyngoch chi a'r contractwr.

FFRWYDRON

42. Os bydd yn rhaid i ni storio neu ddefnyddio ffrwydron byddwn yn rhoi rhybudd i chi ac yn dweud wrthyhch pryd y gellir disgwyl ffrwydradau. Ni fyddwn yn defnyddio ffrwydron ar benwythnosau, gwyliau'r banc na rhwng 7.30pm a 7.30am oni fydd yn hanfodol ac y bydd yn anhebygol o achosi aflonyddwch sylweddol i chi.

AMDDIFFYN CATHODIG

43. Os byddwn yn darparu amddiffyn cathodig i unrhyw ran o'n hoffer, byddwn hefyd yn cymryd camau, lle y bo'n angenrheidiol, i ddiogelu adeiladau a strwythurau ger ein gwaith.

CYNNAL DROS DRO

44. Os bydd gwneud ein gwaith yn golygu y gallai fod angen tanategu neu gynnal eich adeiladau, strwythurau neu offer dros dro, byddwn yn ymgynghori â chi. Byddwn wedyn yn darparu'r amddiffyniad a'r cymorth angenrheidiol.

DARGANFOD FFOSILIAU A GWRTHRYCHAU

45. Os byddwn yn darganfod unrhyw ddarnau arian, ffosiliau neu wrthrychau eraill yn ystod ein gwaith, byddwn yn rhoi gwybod i chi a'r corff archeolegol priodol. Ni fyddwn yn eu cadw nac yn eu hawlio. Mae gennym ddyletswydd gyfreithiol i warchod a chadw gwrthrychau o ddiddordeb archeolegol. Yn unol â hynny, efallai y byddwn yn cyflogi neu'n cynnwys archeolegydd i archwilio'r gwaith wrth iddo fynd rhagddo. Bydd hyn, fodd bynnag, yn cael ei drafod gyda chi yn gyntaf.

AR ÔL Y GWAITH

ADFER

46. Wrth wneud ein gwaith, byddwn yn ceisio achosi cyn lleied o ddifrod â phosibl. Efallai y bydd difrod dros dro, fel codi uwchbridd, er mwyn hwyluso arfer gwaith da a'r gwaith adfer. Ar ôl cwblhau'r gwaith byddwn yn adfer yr ardal lle buom yn gweithio i'r un cyflwr ag yr oedd cyn i ni ddechrau'r gwaith. Os nad yw hyn yn rhesymol bosibl, byddwn yn talu iawndal i adlewyrchu'r dibrisiant yng ngwerth y tir.

47. Byddwn yn symud pob offer a chyfarpar ac unrhyw halogyddion y daethom â nhw ar y safle, a byddwn yn mynd ag unrhyw ddeunydd dros ben a gloddiwyd i ffwrdd gyda ni oni fyddwch yn gofyn i ni beidio â gwneud hynny a'i fod yn gyfreithlon i ni gydymffurfio â chais o'r fath. Caiff y safle ei adael yn lân a thaclus. Cyn i ni drosglwyddo'r ardal waith yn ôl i chi byddwn yn trefnu archwiliad ar y cyd er mwyn sicrhau boddhad. Os byddwn wedi ymgymryd â gweithrediadau cracio pibellau, efallai y byddwn yn gadael y bibell wreiddiol yn y ddôear ac yn caniatáu i'r brif bibell newydd orwedd yng ngweddillion yr hen brif bibell a chwalwyd, gan gofnodi'r adnewyddiad ar ein cronfa ddata asedau.

48. Os byddwn wedi difrodi neu dynnu unrhyw ffens, llethr neu wal, byddwn yn eu trwsio neu'n eu hadfer fel y bo'r angen, ar yr amod na fydd y strwythur yn ein hatal rhag cael mynediad at y bibell nac yn difrodi'r bibell. Yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau Gwrychoedd, os byddwn wedi difrodi gwrych, byddwn yn ei ailblannu â rhywogaeth briodol ac yn codi ffens warchodol briodol er mwyn caniatáu i'r gwrych sefydlu. Fel arall byddwn yn talu iawndal. Hyd cyfnod cynnal a chadw'r contractwr yw 12 mis fel arfer o'r adeg y cwblheir gosod y bibell.

49. Os yw'r gwaith wedi cael ei wneud mewn gardd, gwnawn ein gorau i sicrhau bod yr ardd a gafodd ei hadfer yn cyd-fynd â'r ardd nad effeithiwyd arni. Os bydd angen, byddwn yn cyflogi tirluniwr gerddi achrededig i ymgymryd â'r gwaith adfer. Lle nad yw hyn yn ymarferol, neu os byddai'n well gennych, cytunir ar iawndal er mwyn i chi wneud y gwaith eich hun.

50. Os na fydd system draenio tir wedi'i hadfer yn ddigonol, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn am gyngor gan arbenigwr draenio tir annibynnol. Fel arall, mae'n bosibl y telir iawndal.

GWYBODAETH

51. Ar gais, byddwn yn rhoi gwybod i chi yn ysgrifenedig beth yw lleoliad a dyfnder y bibell 'fel y'i gosodwyd' a maint y tir (yr ardal ddiiffrwyth) sydd angen ei gwarchod. Caiff yr ardal ei chadw mor gul â phosibl a bydd ond yn ddigon llydan i ganiatáu i ni gael mynediad at y bibell a gweithio arni os bydd angen. Caiff y lled hwn ei bennu gan faint ein pibell a'r dyfnder y caiff ei gosod. Er mwyn osgoi difrod i'r bibell a sicrhau y gallwn gael mynediad at y bibell, byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw weithgareddau a waherddir. Mae hyn yn cynnwys plannu mathau penodol o goed, storio deunyddiau penodol neu godi adeiladau, ond ni fydd yn atal gweithrediadau amaethyddol arferol.

IAWNDAL

52. Os byddwn wedi achosi gostyngiad parhaol yng ngwerth eich tir o ganlyniad i bresenoldeb ein pibellau, neu os byddwch wedi dioddef unrhyw golledion neu aflonyddwch dros dro oherwydd y gwaith, mae'n bosibl y byddwch yn gallu hawlio iawndal gennym; hefyd os byddwch wedi dioddef difrod i'ch eiddo nad ydym wedi gallu ei unioni. Dylech nodi mai dim ond ar gyfer eitemau a brynwyd yn uniongyrchol ac nad oedd modd osgoi eu cael o ganlyniad i'r gwaith y caiff iawndal aflonyddu ei dalu. Os ydych yn profi aflonyddu difrifol dylech, ar adeg yr aflonyddwch cyntaf, roi gwybod i'ch cyswllt a gadael iddo/iddi wybod os ydych yn debygol o wynebu unrhyw gostau ychwanegol. Mae'n syniad da i chi gadw cofnod o ddigwyddiadau a thystiolaeth o unrhyw golledion y credwch i chi eu dioddef. Os ydych wedi penodi asiant neu brisiwr tir (gweler paragraff 17) bydd ef/hi yn paratoi ac yn negodi hawliad ar eich rhan. Caiff eich hawliad ei drin yn gyfrinachol.

53. Os byddwch chi neu eich asiant/prisiwr yn gofyn i ni yn ysgrifenedig, byddwn yn talu blaendal o 90% o'n hasesiad o'ch colled o fewn tri mis i dderbyn eich cais a'ch tystiolaeth fesuradwy o'ch hawl. Gallai llog fod yn daladwy ar eich howliad. Bydd eich asiant/prisiwr yn gallu rhoi cyngor i chi ynglŷn â hyn.

54. Ar ôl negodi â ni, os na ellir cytuno ar iawndal, gallwch gyfeirio'r mater i gael ei benderfynu gan yr Uwch Dribiwnlys (y Tribiwnlys Tiroedd gynt), o ran lefelau iawndal a chostau. Fodd bynnag, mater i'ch asiant/prisiwr tir yw eich cynghori ac ni fyddwn yn talu eich ffioedd asiant/prisiwr tir i baratoi eich achos.

55. Yn y dyfodol, os byddwch am ddatblygu'r tir, mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth i chi ofyn i ni addasu neu dynnu'r bibell. Os nad yw'r cais yn un afresymol, mae dyletswydd arnom i gydymffurfio, ond bydd yn rhaid i chi dalu'r holl gostau am wneud hynny.

CWYNION

56. Pan fyddwn yn gweithio ar eich tir, ein nod yw achosi cyn lleied o ymyrraeth ac anghyfleustra â phosibl. Rydym yn disgwyl i'n gweithwyr a'r contractwyr sy'n gweithio i ni fod yn gwrtais, yn ystyriol ac o gymorth. Os bydd gennych broblem, cysylltwch â'r enw cyswllt a enwir yn gyntaf.

Os na allwch ddatrys y mater, cysylltwch â ni:

Y Tîm Ystadau

Dŵr Cymru Welsh Water

Depo Clydach, Ystâd Ddiwydiannol Players,
Clydach, Abertawe, SA6 5BQ

Ffôn: 01639 816 925

E-bost: estates@dwrcymru.com

PWYSIG

Cysylltwch â ni yn gyntaf gan mai dim ond cwynion rydych eisoes wedi ein hysbysu amdanynt y bydd y CCW (llais cwsmeriaid dŵr) ac OFWAT yn ymchwilio iddynt fel arfer, a byddant am glywed sut y gwnaethom ymdrin â'ch cwyn yn wreiddiol.

ADOLYGIADAU ANNIBYNNOL

CCW – llais cwsmeriaid dŵr.

Gallwch gysylltu â nhw yn CCW,
23 Stephenson Street, Birmingham, B2 4BH

Ffôn: 0300 034 3333

E-bost: enquiries@ccwater.org.uk

Gwefan: ccwater.org.uk

WATRS – Y CYNLLUN IAWNDAL DŴR

Os nad yw eich cwyn wedi cael ei ddatrys o hyd ar ôl dilyn ein trefn gwyno, ac adolygiad gan CCW, gallech fod yn gymwys i godi'ch pryderon gyda WATRS, i ddarparu ateb rhwymol terfynol.

Am fanylion sut a phryd i ymgeisio:

WATRS, Canolfan Datrys Anghydfodau
Rhyngwladol, 70 Fleet Street, Llundain,
EC4Y 1EU

Ffôn: 0207 520 3801

E-bost: info@watsr.org

Gwefan: watsr.org

OFWAT

Gallwch gyflwyno rhai cwynion at Ofwat, rheoleiddiwr economaidd y diwydiant dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr. Dylech gysylltu â ni yn y lle cyntaf o hyd, ond os ydych chi'n dal yn anfonlon, gallwch ofyn i Ofwat ymchwilio.

Mae'r mathau o gwynion y byddant yn ymchwilio iddynt yn cynnwys:

- Ein pwerau i osod pibellau ar dir preifat
- Pryderon ein bod ni'n torri amodau ein trwydded neu ein dyletswyddau o ran prif gyflenwadau dŵr neu garthffosiaeth
- Ymddygiad gwrth-gystadleuol o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998, er enghraifft cydweithio ar brisio neu ymgeisio am gontractau

Gallwch gysylltu â nhw yn:

Ofwat, City Centre Tower, 7 Hill Street,
Birmingham, B5 4UA

Ffôn: 0121 644 7500

Ffacs: 0121 644 7559

E-bost: enquiries@ofwat.gsi.gov.uk